**EITEM AR YR AGENDA:**

**PANEL GWEITHREDOL TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**22 Medi 2008**

**DATGANIAD CYFRIFYDDU 2007-08 A'R LLYTHYR CYNRYCHIOLAETH**

**Adroddiad gan Ken Finch,**
**Trysorydd yr Awdurdod**

**Pwrpas yr Adroddiad**

**1.** Cyflwynwyd y Datganiad Cyfrifyddu ar gyfer 2007-2008 i'r Awdurdod Tân i'w gymeradwyo ar 16 Mehefin 2008. Mae'r cyfrifon bellach wedi eu harchwilio gan Archwilydd penodedig Swyddfa Archwilio Cymru ac wedi eu diwygio'n unol â chanfyddiadau'r archwiliad a thrafodaethau dilynol ynghylch y dull o gyfrifyddu, diffiniadau a chyflwyniad eitemau penodol o fewn y cyfrifon.

**2.** Ynghlwm yn yr adroddiad hwn, fel atodiad 2, mae copi o ohebiaeth rhwng yr Archwilydd Allanol a minnau mewn perthynas â'r uchod. Mae'r llythyr yn egluro'r rheswm dros lythyr cynrychiolaeth.

**Gwybodaeth**

**3.** Tra bod rhai o'r newidiadau'n ymwneud â chyflwyniad, tynnir sylw Aelodau at y prif newidiadau canlynol i'r cyfrifon:

a) Ar dudalen 2, paragraff (i), mae'r tanwariant am y flwyddyn wedi lleihau o £6,377 i £1,883 yn sgil addasiad i'r croniadau diwedd blwyddyn a gynyddodd y gwariant am y flwyddyn.

Mae’r tabl canlynol sy’n manylu ar y tanwariant a’r gorwariant o dan y paragraff hwn hefyd wedi ei ddiwygio i ddangos y newidiadau.

b) Ar dudalen 14, gwnaed newidiadau i’r cyfrif Incwm a Gwariant i ddangos y cynnydd mewn gwariant a’r lleihad yn y cyfraniad i’r Ddarpariaeth Reoli o ganlyniad i’r newid i’r croniadau. Mae’r newidiadau eraill i’r datganiad yn ymwneud â chyflwyniad ac nid ydynt yn effeithio ar y ‘Llinell Sylfaen’. Mae’r addasiadau’n cynnwys addasiad i’r dull o gyfrifyddu’r costau pensiwn o dan FRS17; newid i’r gost amhariad yn sgil prisio gorsafoedd tân Llanberis a Harlech yn broffesiynol; cynnwys enillion yn sgil gwerthu ased sefydlog; a lleihad yn y gost ar gyfer dibrisio.

c) Mae’r Datganiad o Symudiadau ar Falans y Gronfa Gyffredinol ar dudalen 15 wedi ei addasu i ddangos y newidiadau i’r Cyfrif Incwm a Gwariant.

d) Mae’r Datganiad Cyfanswm Enillion a Cholledion Cydnabyddedig wedi ei ddiwygio i ddangos y cynnydd o £114,000 yng ngwerth net yr Awdurdod, yn bennaf yn sgil y newid o ran prisio.

e) Mae'r Fantolen ar dudalen 16 hefyd wedi ei diwygio i ddangos y newidiadau uchod. Mae’r addasiadau eraill sydd wedi eu cynnwys yn y datganiad yn lleihad cyffredinol o £10,346 mewn Dyledwyr wedi ei osod yn erbyn addasiadau cyfatebol i Daliadau ymlaen llaw a Derbyniadau ymlaen llaw.

f) Gwnaed newidiadau dilynol i nodiadau’r cyfrifon i ddangos y sylwadau yn a) i e) uchod.

g) Mae Nodyn 7 ar dudalen 19 wedi ei ddiwygio i ddangos y symiau sy'n ddyledus yn ôl y cynllun archwilio.

**4.** Cymeradwywyd Datganiad Cyfrifyddu 2007/2008 gan yr Awdurdod Tân ar Fehefin 16 2008 yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 a gan nad yw'r newidiadau'n sylweddol does ond angen i'r Aelodau nodi'r newidiadau. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gydnabod yn ffurfiol y Llythyr Cynrychiolaeth a anfonwyd at yr Archwilydd Allanol.

**Argymhelliad**

**5.** Aelodau:

**5.1** nodi'r Datganiad Cyfrifyddu diwygiedig ar gyfer 2007-08 (atodiad 1); a

**5.2** chydnabod yn ffurfiol y Llythyr Cynrychiolaeth a anfonwyd at yr Archwilydd Allanol (atodiad 2).